# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 30 Ebrill 2002 i'w hateb ar 14 Mai 2002

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff y Prif Weinidog, yn rhinwedd ei rôl fel cydlynydd y themâu trawsbynciol, roi datganiad mewn perthynas â'r heriau sy'n wynebu Cymoedd De Cymru wrth osod cydraddoldeb yn y brif ffrwd. (OAQ17510)

**2. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo Gogledd Cymru, yn nhermau cysylltiadau trafnidiaeth, er mwyn denu buddsoddi economaidd. (OAQ17506)

**3. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod effaith Cyllideb y Deyrnas Unedig ar wariant cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ17495) **W**

**4. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut mae polisïau ei Lywodraeth wedi effeithio ar bobl Gorllewin De Cymru yn ystod y chwe mis diwethaf. (OAQ17497)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru);** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, mewn perthynas â mesurau'r Prif Weinidog i fynd i'r afael â throseddau ar strydoedd Cymru. (OAQ17509)

**6. Brian Gibbons (Aberafan);** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb i ddogfen ymgynghorol Llywodraeth y DU, "Mynd i'r afael â Thenantiaid Gwrth-gymdeithasol". (OAQ17499)

**7. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae llwyddiant rygbi Cymru yn gyffredinol yn cyfrannu at ffyniant economaidd Cymru. (OAQ17512)

**8. Dafydd Wigley (Caernarfon);** A ydyw'r Prif Weinidog yn fodlon bod arian Amcan 1 yn cael ei wario mewn modd a fydd yn cynyddu GDP y pen o fewn tiriogaeth Amcan 1 Cymru mewn modd sylweddol. (OAQ17511) **W**

**9. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch cael gwared ar hiliaeth sefydliadol yn y broses o lunio polisïau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. (OAQ17502)

**10. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn mesur llwyddiant ei pholisïau ar draws Canol De Cymru. (OAQ17494) **W**

**11. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y graddau y mae polisïau trawsbynciol y Cynulliad yn mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol ledled Cymru. (OAQ17505)

**12. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drefniadau sydd gan y Prif Weinidog ar y gweill i sicrhau ffyniant Sir Benfro a'r De-orllewin. (OAQ17496) **W**

**13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad ar unrhyw gynnydd newydd a wnaed o ran gweithredu'r polisïau a geir yn y ddogfen strategol, ‘Cynllun i Gymru’. (OAQ17498)

**14. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**Ym mha ffordd y mae'r Prif Weinidog yn sicrhau bod safbwyntiau pobl Cymru yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau neu lunio polisïau. (OAQ17492)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar newid rheolau benthyca y Trysorlys ar ariannu prosiectau cyfalaf y gwasanaethau cyhoeddus. (OAQ17504)